



AQA	City & Guilds	CCEA	OCR	Pearson	CBAC
-----	---------------	------	-----	---------	------

Gwybodaeth i ymgeiswyr Canllawiau wrth roi cyfeiriadau at arholiadau/asesiadau ar y Rhyngrwyd

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i'ch helpu chi. Dylech ei darllen yn ofalus.

Mae pawb ohonom yn hoffi rhannu ein profiadau wrth gymryd arholiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi ystyried yr hyn rydych yn ei ddweud. Gallai eich sylwadau olygu bod ymchwiliad i gamymddwyn yn cael ei gynnal a gallech gael eich cosbi.

Mae cyrff dyfarnu'n monitro cyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Nid ydynt am weld ymgeiswyr yn peryglu eu marciau a'u graddau oherwydd bod cosbau llym am dorri rheolau'r arholiadau, asesiad dan reolaeth neu waith cwrs.

Y Cydgyngor Cymwysterau^{CIC} (JQC^{CIC}) sy'n gosod y rheolau ar ran y cyrff dyfarnu i gyd ac mae'r rhain i'w gweld yn: <http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

Ymhlith yr enghreifftiau o osodiadau neu weithgareddau a fydd yn arwain at ymchwiliad i gamymddwyn y mae:

- copio neu ganiatáu i waith gael ei gopïo – h.y. rhoi gwaith ysgrifenedig ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol cyn arholiad/asesiad;
- cydgyllwynio: cydweithio ag ymgeiswyr eraill y tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei ganiatáu;
- caniatáu i eraill helpu i gynhyrchu eich gwaith chi neu helpu eraill â'u gwaith nhw;
- cael deunydd cyfrinachol yn eich meddiant cyn yr arholiad;
- cyfnewid, cael, derbyn neu drosglwyddo gwybodaeth gan ddefnyddio unrhyw ddull cyfathrebu (hyd yn oed os ydynt yn ceisio gwneud hynny);
- trosglwyddo sibrydion am gynnwys arholiadau gan ymgeisydd arall.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Gall corff dyfarnu ystyried achosion eraill o gamymddwyn gan ymgeiswyr.

Os ydych yn cael eich canfod yn euog o dorri unrhyw un o'r rheolau hyn gallech wynebu:

- rhybudd;
- colli marciau am adran, cydran neu uned;
- cael eich diarddel o uned, pob uned neu gymhwyster; neu
- cael eich gwahardd rhag sefyll arholiadau am gyfnod penodol o amser.

Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r rheolau:
<http://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents>

Gofalwch nad ydych yn camymddwyn ac yn cael eich cosbi.